

# Cyngor Cymuned Mæchell Community Council

Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd nos Lun 14/05/2018  
*Minutes of the meeting held on Monday evening 14/05/2018*

**Presennol / Present:** Mrs Mary Hughes, Mr Jac Jones, Mr Adrian Parry, Mr Owen Mostyn Williams, Mrs Jenny Raffle, Mr Julian Wynne

**Cyngorwyr Sirol / County Councillors:** Cyng. / Cllr. Ken Hughes

**Yn Bresennol / In Attendance:** Helen Mai Hughes (Clerc/Clerk), Richard Foxhall (Horizon)

## **1 Croeso ac Ymddiheuriadau / Welcome and Apologies**

1.1 Gan nad oedd Elin Wynne, y Cadeirydd yn bresennol, mi gymerodd Mary Hughes, yr îs-gadeirydd y gadair. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.

*As Elin Wynne, the Chair, was not present at the meeting, the Vice Chair, Mary Hughes chaired the meeting. Mary Hughes welcomed everyone to the meeting.*

1.2 Derbynydd ymddiheuriadau gan Mr Richard Hughes, Mrs Elin Wynne, Mr Tony Jones  
*Apologies were received from Mr Richard Hughes, Mrs Elin Wynne, Mr Tony Jones*

## **1.3 Datgan diddordeb / Declaration of interest**

Eitem 7.2 / Item 7.2 – Mary Hughes, Jac Jones

Eitem 8 / Item 8 – Cyng. / Cllr. Ken Hughes

## **2 Materion Horizon / Horizon Matters**

2.1 Nid oedd Mr Richard Foxhall yn gallu mynychu y cyfarfod. Cafwyd trafodaeth byr ar ddatblygiadau Wylfa Newydd.

*Richard Foxhall could not attend the meeting. A short discussion was had on development of Wylfa Newydd.*

## **3 Cofnodion Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the Last Meeting**

Derbynydd cofnodion cyfarfod 16/04/2018 fel rhai cywir. Cynigwyd gan Jac Jones, eiliwyd gan Owen Mostyn Williams.

*The minutes of the 16/04/2018 meeting were accepted as a true record. Proposed by Jac Jones, seconded by Owen Mostyn Williams.*

## **4 Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes**

4.1 Eitem 4.1 – Ysgol Meithrin Carreglefn – Dim cydnabyddiaeth na gohebiaeth.

**Gweithred – Y Clerc i yrru ebôst i ofyn a dderbynydd y llythyr.**

*Item 4.1 – Carreglefn Nursery School – Still no acknowledgment or correspondence.*

**Action – The Clerk to send an email to see whether the letter was received.**

4.2 Eitem 4.2 – Disgwyl tan cyfarfod nesaf cyn argraffu taflen gan fydd penderfyniad ar Wylfa Newydd wedi cael ei wneud erbyn hynny.

*Item 4.2 – Wait until the next meeting to create a leaflet as a decision will have been made on Wylfa Newydd by then.*

4.3 Eitem 5.1 – Adrian Parry wedi gwneud ymchwil. Cyfarfod wedi bod rhwng Canolfan Bedwyr a nifer o bobl arall. Mae y sillafiad Carreglefn yn aros fel ag y mae.

*Item 5.1 – Adrian Parry had done some research. A meeting had been held between Canolfan Bedwyr and numerous people. The spelling of Carreglefn will remain as it is.*

4.4 Eitem 4.4 – Mae'r boccs oedd ar y polyn nawr wedi diflannu.

*Item 4.4 – The box that was on the pole has now disappeared.*

4.5 Eitem 6.3 – Pwnc moderneiddio ysgolion - Mae'r dogfennau drafft ymgynghori angen ei orffen cyn ei yrru ymlaen i bawb.  
*Item 6.3 – Subject of modernising schools – The consultation draft document needs to be finalised before forwarding to everyone.*

4.6 Eitem 8.3 – Palmant yng Ngharreglefn – Mae golwg yng nghanol y pentref nawr.  
**Gweithred – Y Clerc i ysgrifennu llythyr i ofyn beth yw sefyllfa gyda creu y palmant.**  
*Item 8.3 – Pavement in Carreglefn – There centre of the village is now untidy.*  
**Action – The Clerk to write a letter to ask what the situation is with regards to creating a pavement.**

## 5 Ffyrdd / Highways

5.1 Derbynwyd cwynion am:

- Lon Bwlch, Llanfechell – tyllau yn y lon.
- Lon Tyddyn Fadog – tyllau yn y lon.
- Ger Capel Jerwsalem, Mynydd Mechell – twll mawr.
- Ceg lon Maes y Plas, Llanfechell.
- *Japanese Knotweed* yn Ynys yr Hwch, Carreglefn.

**Gweithred – Y Clerc i ysgrifennu ebôst.**

*Complaints were received regarding:*

- *Bwlch road, Llanfechell – holes in the road.*
- *Tyddyn Fadog road – holes in the road.*
- *Near Jerusalem Chapel, Mynydd Mechell – big hole.*
- *Entrance to Maes y Plas, Llanfechell.*
- *Japanese Knotweed at Ynys yr Hwch, Carreglefn.*
- **Action – The Clerk to write an email.**

## 6 Gohebiaethau / Correspondence

6.1 Derbynwyd ebÿst gan / *Emails were received from:*

CSYM – ‘Hoffwch chi fod yn rhan o gyfres anturaethol henesyddol newydd ar gyfer y BBC?’

IOACC – ‘Do you want to be a part of a new adventure living history series for the BBC?’

CSYM – Sesiwn Briffio i Gynghorau Tref a Chymuned – Wylfa Newydd 26.04.18.

IOACC – Briefing Session for Town and Community Councils – Wylfa Newydd 26.04.18.

Un Llais Cymru – Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data (RCDD) — Datganiad Swyddfa y Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer Cynghorau Tref a chymuned.

*One Voice Wales – The General Data Protection Regulation (GDPR) – ICO Statement for Town and Community Councils.*

Un Llais Cymru – Ffioedd amddiffyn data. Mae Cyngor Cymuned Mechell angen cwblhau hunan asesiad cyflym gyda Swyddfa y Comisiynydd Gwybodaeth er mwyn gweld os oes unrhyw ffioedd i'w dalu.

*One Voice Wales – Data protection fees. Mechell Community Council needs to complete a quick self assessment with the Information Commissioner's Office in order to see if there are any fees to pay.*

Cyfarfod Partneriaeth Gogledd Môn – Mai 1 2018 a Mehefin 6 2018 am 6.30 yn Siambr Cyngor Tref Amlwch.

*North Anglesey Partnership Meeting – May 1 2018 and June 6 2018 at 6.30 in the Amlwch Town Council Chambers.*

Cyfarfod Partneriaeth Gogledd Môn – Derbynwyd nifer o ebÿst gyda gwybodaeth.

*North Anglesey Partnership Meeting – A number of emails were received regarding information.*

Ymateb Un Llais Cymru i Adolygiad y Cyngor Cymuned a Thref.  
*One Voice Wales Response to Community and Town Council Review.*

Un Llais Cymru – Cytundeb Cyflog Cenedlaethol 2018-19. Cafwyd trafodaeth a cytunwyd i'r Clerc gael codiad cyflog i gyd-fynd a'r cytuned Cenedlaethol.  
*One Voice Wales – 2018-19 National Pay Agreement. A discussion was had and it was decided that the Clerk should have a pay rise as stated in the National Agreement.*

Un Llais Cymru – 'Angen mwy o gymorth ar bobl sy'n wynebu rhwystrau iaith a chyfarthrebu i'w helpu i gael mynediad i wasanaethau cyhoeddus.'  
*One Voice Wales – 'People facing language and communication barriers need more support to help access public services.'*

Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith – diweddariad mis Ebrill 2018.  
*Executive's forward work programme – April 2018 update.*

Neges ar ran panel yr Adolygiad Annibynnol – Cylchlythyr Ebrill 2018.  
*Message sent on behalf of the Independent Review panel – April 2018 newsletter.*

CSYM – Papurau Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned – 10.05.18.  
*IOACC – Town and Community Councils Liaison Forum papers – 10.05.18.*

Iechyd Cyhoeddus Cymru – 'Deall nodweddion bregus a gwydnwch i ansicrwydd mewn Cymunedau gwledig yng Nghymru'.  
*Public Health Wales – 'Understanding vulnerabilities and resilience to uncertainty in rural communities'.*

CSYM – Ymgynghoriad ar ddrafft o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Dyddiad cau am ymateb yw 10 Awst 2018.  
*IOACC – Consultation on draft Right of Way Improvement Plan. Deadline for response if August 10 2018.*

CSYM – Cynghorau Tref a Chymuned – Protocol Datrysiaid Lleol (019486).  
*IOACC – Town and Community Councils – Local Resolution Protocol (019486).*

**6.2** Darn o dir ger Tyddyn Fadog gyferbyn a Wern – perchennog y tir yw CSYM. Wedi cysylltu a'r Adran Briffyrdd ac nodwyd nad oes problem.  
*Piece of land by Tyddyn Fadog opposite Wern – the piece of land is owned by IOACC. Highways Department contacted and said there was no problem.*

## **7 Biliau / Bills**

**7.1** Derbynwyd biliau a cymeradwyo i'w talu (drwy BACS os yn bosib) / Bills were received and approved for payment (via BACS if possible):

- Hogan Aggregates (Planings) - **£381.60**
- Stad Brynddu Estate (Rhent y rhandiroedd / Allotments Rent) - **£30.00**
- C Jones – Weindio Cloc y Pentref / Winding of the village clock - **£60**

**7.2** Derbynwyd arian gan / Monies received from:

- CSYM / IOACC – Taliad cyntaf presept 2018-19 / First precept payment 2018-19 - **£2,958.51**

**7.3** Cymorth Ariannol / Financial Assistance:

- Ysgol Gymuned Llanfechell (Llawr newydd yn Nosbarth 3 ag Ystafell Athrawon – Tynnu asbestos yn cael ei dalu gan CSYM / New floor for Classroom 3 and the Staff Room – Asbestos removal paid by IOACC) – Trafodwyd a cytunwyd i roi cymorth ariannol o Gronfa'r Melinau Gwynt / It was discussed and decided to contribute from the Windmill Fund - **£2,069.10.**

**8** **Cynllunio / Planning**

**8.1** **Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications**

Refail Rhosbeirio, Rhosgoch (38C325A) – Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu. Dim gwrthwynebiad.  
*Refail Rhosbeirio, Rhosgoch (38C325A) – Full application for alterations and extensions. No objection.*

**8.2** A5025 rhwng y Gyffordd ar yr A5 i'r Dwyrain o'r Fali i'r Orsaf Bŵer yng Nghemaes (27C106E/FR/ECON) – Cais llawn i wella'r briffordd gyfredol (yr A5025) rhwng y gyffordd ar yr A5 i'r Dwyrain o'r Fali i'r Gyffordd wrth y Ffordd Fynediad i'r Orsaf Bŵer arfaethedig mewn wyth o lleoliadau ar wahan ynghyd ag ailadeiladu a lledu'r pafin presennol a'r gorffenwaith ar yr arwynebedd mewn manau, gweithredu compownd adeiladu dros dro gan gynnwys cyfleuster dros dro ar gyfer ailgylchu pafinau, creu dau bwl teneuo a mynedfa ar gyfer cynnal a chadw, creu llwybrau beicio a gwyro rhai eraill am gyfnod dros dro, creu chyfleusterau parcio erail yn sgîl colli cilfan ynghyd â gwaith cysylltiedig arall gan gynnwys draenio, trîn ffiniau, plannu, gosod arwyddion newydd a marciau ar hyd. Dim sylwadau.

*A5025 between A5 East of Valley Junction to Power Station Cemaes (27C106E/FR/ECON) – Full application for improvements to the existing highway (A5025) between A5 East of Valley Junction to the proposed Power Station Access Road Junction at eight separate locations together with reconstruction and localised widening of existing pavement and surface dressing, temporary construction compound including temporary pavement recycling facility, creation of 2 attenuation ponds and maintenance access, creation / temporary diversion of cycle routes, creation of alternative parking facilities to mitigate loss of lay-by together with other associated works including drainage, boundary treatments, planting, new signage and road markings along. No comments.*

**9** **Unrhyw Fater Arall / Any Other Business**

**9.1** Coed ym mynwent Carreglefn – Mary Hughes yn delio gyda'r mater.

*Trees in Carreglefn cemetery – Mary Hughes is dealing with the matter.*

**9.2** Wal yn y Maes Martin – angen cael 3 cwôt ar gyfer adeiladu y wal. Elin Wynne a Mary Hughes yn bwrw ymlaen efo hyn.

*Wall in Maes Martin – 3 quotes are needed to build the wall. Matter in hand with Elin Wynne and Mary Hughes.*

**10** **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting**

Mi fydd y cyfarfod llawn nesaf yn cael ei gynnal ar nos Lun Mehefin 11 2018 am 7 o'r gloch yn Ysgol Carreglefn.

*The next full council meeting will be held on Monday evening June 11 2018 for 7pm in Carreglefn School.*

**Arwyddwyd / Signed**

Cadeirydd / Chair .....

Dyddiad / Date .....